Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Ciliau Parc**
**Ciliau Aeron**
**Llanbedr Pont Steffan**
**Ceredigion**
**SA48 8BX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Tachwedd 2012**

**gan**

**Carolyn Jane Thomas**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Ciliau Parc ym mhentref Ciliau Aeron rhwng Aberaeron a Llanbed yng Ngheredigion. Mae'r disgyblion yn derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 65 o ddisgyblion, rhwng 4-11 oed, ar y gofrestr ac mae'r mwyafrif helaeth wedi derbyn addysg gyn ysgol.

Nid yw ardal yr ysgol yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 8% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae 11 disgybl, (17%), wedi eu harenwi fel rhai sydd ag anghenion ychwanegol. Mae hyn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae 2 ddisgybl ar ddatganiad o anghenion ychwanegol. Saesneg yw brif iaith cartref mwyafrif helaeth y disgyblion. Prif nod polisi iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion yn ddwyieithog cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Rhagfyr, 2005. Apwyntiwyd y pennaeth presennol yn1993.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ciliau Parc yw £3,430, sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,706 ac isafswm o £2,987 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngheredigion. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 41fed uchaf o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- darpariaeth dda a'r profiadau ymarferol cyfoethog a roddir i'r disgyblion i'w hysgogi i ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen;
- bod llawer o'r disgyblion o bob oedran a galluoedd gwahanol yn cyrraedd eu potensial;
- bod medrau cyfathrebu'r disgyblion yn enwedig mewn darllen yn Gymraeg a Saesneg, ysgrifennu yn Gymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda;
- y sylw effeithiol a rhoddir i les disgyblion ac i'w hanghenion ychwanegol; ac
- addysgu da sy'n ysgogi'r disgyblion i gyfranogi yn eu dysgu ac i gael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- ei hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliant yn neilliannau'r disgyblion;
- caiff ei harwain yn dda ac mae ganddi ymdeimlad clir a chytunedig o bwrpas a chyfeiriad;
- mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth;
- mae prosesau hunan-arfarnu yn drwyadl ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn; a
- mae'r llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol, ac ar adegau wedi rhoi arweiniad clir sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyfeiriad strategol yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

A1 godi safonau'r disgyblion yng ngwaith ysgrifennu estynedig a sillafu yn y Saesneg;

A2 sicrhau fod cysondeb yn y ddarpariaeth i'r disgyblion mwyaf abl, a'i herio i gyraedd eu llawn botensial; a

A3 rhannu'r arfer dda sy'n bodoli yn yr ysgol o safbwynt asesu ar gyfer dysgu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y disgyblion ar fynediad i'r ysgol fod ganddynt ystod eang o fedrau. Mae safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos cynnydd pendant. Mae cynnydd medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y disgyblion yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif helaeth ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir ar gyfer eu hoed mewn medrau cyfathrebu a mathemateg. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg, yn enwedig ar lafar, ac yn gwneud defnydd llawn o'u medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac ar gyfarwyddiadau'r athrawon. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus gydag oedolion ac eraill mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Wrth ymateb yn y gwersi mae llawer o'r disgyblion yn siarad yn glir a rhugl. Maent yn gallu rhoi rhesymau cadarn wrth ddatgan eu penderfyniadau.

Mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw sgiliau ysgrifennu estynedig yn y Saesneg na sgiliau sillafu Saesneg wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae cynnydd yn y gwersi yn dda drwy'r ysgol, ac mae llawer o'r disgyblion yn gorffen eu gwaith ac yn canolbwyntio ar eu tasgau, yn dangos diddordeb a dyfalbarhad.

Mae llawer o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)yn llwyddo'n dda yn erbyn eu targedau personol. Maent yn dangos cynnydd perthnasol yn ôl eu gallu. Mae'r disgyblion sydd ar ginio rhad yn llwyddo'n dda.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, mae'r disgyblion yn cyrraedd safonau uchel yn y pynciau craidd. Mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd lefelau disgwyliedig yn uwch na'r teulu (grŵp o ysgolion gyda nodweddion cyffelyb), ALL (Awdurdod Lleol) a Chymru yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn yr 50% uchaf o'u cymharu ag ysgolion a chanrannau o ddisgyblion a hawliau i ginio rhad.

Ar ddiwedd CA2, mae'r ysgol yn perfformio'n dda yn erbyn y teulu, ALL a Chymru ym mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r canlyniadau yn y Gymraeg yn 2011 yn is. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y canran uchaf yng ngwyddoniaeth a mathemateg o'u cymharu ag ysgolion a chanrannau o blant a hawliau cinio rhad. Roedd canlyniadau yn y Gymraeg yn is yn 2011 oherwydd hwyrddyfodiaid a Saesneg fel eu mamiaith. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg ar y cyd, mae'r ysgol yn perfformio'n gyson dda ac yn well na'r Teulu, ALL a Chymru.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Er fod y rhan fwyaf o’r disgyblion mwyaf abl yn cyflawni’n dda nid yw yn gyson ar draws yr ysgol.

**Lles: Da**

Teimla’r disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol a maent yn troi’n hyderus at oedolion am gymorth a chyfarwyddyd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac yn deall hanfodion bwyta’n iach.

Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn cyd-chwarae’n hapus. Maent yn datblygu’n unigolion cyflawn a gweithgar, parod eu cyfraniad i waith o fewn yr ysgol ac mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae agwedd bron pob un o’r disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol. Maent yn gweithio’n effeithiol yn eu gwersi a’u gweithgareddau.

Mae presenoldeb y tri tymor cyn yr arolwg yn 91.85%. Mae hyn tipyn yn is na’r ffigwr lleol a chenedlaethol. Ni fu unrhyw absenoldebau heb eu hawdurdodi yn y flwyddyn 2011.Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn dda.

Mae’r disgyblion yn gwrtais â’i gilydd a gydag oedolion ac yn dangos parch, gofal a phryder dros eraill, ac mae’r mwyafrif yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae’r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cyfrannu’n bositif at fywyd yr ysgol. Mae llawer o’r disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda o agweddau fel yr ysgol werdd. Mae darpariaeth fel yr ymgyrch leihau ac ailgylchu gwastraff wedi codi eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â’r gymuned leol.

Mae’r disgyblion yn cael darpariaeth amrywiol o gyfleoedd i weithio gydag eraill. Ceir cydweithio da gyda‘r papur lleol i hyrwyddo gwaith menter a busnes yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Darperir ystod eang o brofiadau dysgu. Mae’r athrawon yn cydweithio i gynllunio rhaglenni gwaith, a thrwy gynnwys y disgyblion, yn sicrhau profiadau dysgu diddorol a pherthnasol. Nid yw’r cynllunio yn ddigon cyson i sicrhau ddatblygiad ysgrifennu estynedig yn Saesneg, nac i herio’r disgyblion mwy abl a dawnus.

Gwneir defnydd da o dargedu disgyblion sydd yn tangyflawni. Maent yn derbyn cymorth ychwanegol pwrpasol gan sicrhau cynnydd yn eu medrau llythrennedd.

Cynllunir cyfleoedd priodol yn y mwyafrif o’r gwersi er mwyn ddatblygu medrau. Golyga hyn bod y mwyafrif yn gallu defnyddio’r medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o gyfrifiaduron ac adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae hyn yn cyfrannu at ansawdd da y dysgu.

Mae pwyllgor Eco yr ysgol yn cymryd rhan mewn amryw o brosiectau. Er iddynt drefnu gweithgareddau codi arian i lefydd fel Rwmania a Siapan, mae’r elfen o ddinasyddiaeth fyd-eang heb ei ddatblygu yn gyson.

Mae’r ysgol yn annog y disgyblion i siarad Cymraeg ac mae’r athrawon yn modelu iaith dda. Oherwydd y ddarpariaeth da, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau dwyieithrwydd. Ceir darpariaeth dda i hybu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac mae hyn yn cael blaenoriaeth uchel trwy ystod o brofiadau cwricwlaidd ac ym mywyd yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae’r rhan fwyaf o’r addysgu yn dda, yn sicrhau bod disgyblion wedi’u cymell i ddangos diddordeb yn eu dysgu. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i ysgogi ’r disgyblion yn dda.

Yn y gwersi lle mae addysgu rhagorol, ceir amseru bywiog a byrlymus, strwythuro gweithgareddau da i gyfateb ag oedran a gallu’r plant a chwestiynu heriol. Anogir yr holl ddisgyblion yn gyson i weithio’n annibynnol ac i gynhyrchu gwaith o safon da.

Mae disgwyliadau’r athrawon yn uchel pan yn adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion ac yn eu herio. Anghyson yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r disgyblion mwyaf galluog.

Rheolir ymddygiad y plant yn dda drwy feithrin ethos gofalgar a chadarnhaol. Cydweithia’r staff addysgu a chynorthwyol yn dda ac mae hyn yn cyfoethogi ac ychwanegu at y profiadau gwerthfawr o fewn y dosbarth.

Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r disgyblion sy’n eu galluogi i gyfoethogi eu dysgu ar draws y Cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol i ddatblygu dulliau asesu ar gyfer dysgu ac yn yr arfer orau mae’r egwyddorion a strategaethau yn gosod targedau clir i’r disgyblion ar gyfer gwella safonau. Anghyson yw`r defnydd o egwyddorion asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

Mae systemau asesu effeithiol gan yr ysgol sy’n crynhoi cynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus diogel lle mae`r disgyblion a`r oedolion yn parchu eu gilydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus trwy nifer o weithgareddau pwrpasol. Mae’r profiadau dysgu da a ddarperir yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Gwneir defnydd effeithiol o ystod o wasanaethau arbenigol.

Mae`r disgyblion yn gwybod at bwy i droi pan fo`r angen. Mae'r ysgol yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol at unrhyw achos o fwlian.

Ceir trefniadau effeithiol yn sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar. Cefnogir hwy gan amrywiaeth o raglenni a strategaethau pwrpasol. Mae'r staff yn cefnogi yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn llwyddo i gyrraedd eu targedau. Mae'r Cynlluniau Addysg Unigol wedi eu llunio yn bwrpasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos croesawgar sy'n darparu amgylchedd diogel a chefnogol. Mae gan bob disgybl fynediad i holl agweddau o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn delio ag achosion o ymddygiad heriol yn effeithiol. Mae digon o adnoddau o safon uchel er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm a gwneir defnydd effeithlon a phwrpasol ohonynt. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r rhodfeydd yn lliwgar, yn symbylus ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad a'r tir yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysogol ac yn cefnogi'n dda y dysgu a'r addysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Gwella'r ysgol trwy gynnal a chodi safonau disgyblion ymhellach yw prif ffocws y cynllunio strategol. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio'n agos gyda'u gilydd i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog a rhoi gwerth ar ddatblygu unigolion er mwyn sicrhau gwelliannau.

Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth a,r safonau. Mae cyfrifoldebau penodol ganddynt i ddatblygu'r ysgol. Mae trefniadau eu datblygiad proffesiynol ynghyd ậ systemau rheoli yn darparu cyfleoedd da i gydweddu anghenion datblygol unigolion yn effeithiol ậ'r amcanion strategol.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn deyrngar a thrwyadl. Mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae eu cyfraniad i'r broses hunan-arfarnu yn ysgogi gwelliannau drwy sicrhau bod trefniadau ymyrraeth yn eu lle i fynd i'r afael ậ'r dasg o godi safonau. Mae'r aelodau yn mynychu hyfforddiant ac yn herio'r ysgol yn dda fel ffrindiau beirniadol ac yn trin data perfformiad a gwelliannau yr ysgol yn effeithiol iawn.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth briodol i ystod o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ac addaswyd rhannau o'r amgylchedd allanol yn llwyddiannus i hybu'r datblygiad. Mae rhai egwyddorion o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, megis datblygu cymunedau dysgu proffesiynol, yn elfen bwysig a gweithredol o fewn yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinyddiaeth dda y pennaeth yn sicrhau bod systemau rheolaethol yr ysgol yn effeithiol. Mae'r broses o gynllunio ar gyfer gwella yn sefydlog a gweithredol gyda'r prif ffocws ar godi safonau. Ceir adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da ac yn cynnig cyfeiriad clir sy'n adnabod a thargedu blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r rheolwyr ac arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r ysgol drwy strategaethau hunan arfarnu ac yn ystyried barn athrawon, rhieni a disgyblion yn y broses.

Mae'r cynllun gwella ysgol, sy'n deillio o'r hunan werthusiad, yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ysgol. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac yn defnyddio ystod o ffynnonellau tystiolaeth, megis dadansoddi data, archwilio dogfennaeth yr ysgol, monitro'r addysgu a'r dysgu, dadansoddi a lefelu gwaith plant, i herio'r ysgol i godi safonau ymhellach.

Mae staff yr ysgol yn gweithio'n dda fel cymuned, ac maent yn rhannu arfer orau a blaengareddau addysgol diweddar yn eu cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae partneriaethau effeithiol o arfer proffesiynol gydag ysgolion eraill yn datblygu'n dda er gwelliant parhaus. Manteisir ar arbenigedd staff mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys rhwydweithiau o arfer proffesiynol gydag ysgolion y gymuned ehangach, yr awdurdod lleol ac asiantaethau a mudiadau cenedlaethol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Medda'r ysgol ar bartneriaethau da sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion.

Mae'r partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned yn dda. Mae'r rhieni yn gefnogol i'r holl weithgareddau a ddarperir ac yn ymfalchïo ym mholisi 'drws agored' yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant a maent yn hapus gyda llawer o agweddau o fywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol a llesol gyda'r Gymdeithas Athrawon a Rhieni ac mae'r Gymdeithas yn codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol.

Ceir trefniadau effeithiol er sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol.

Mae'r strategaeth a ddefnyddiwyd gan yr ysgol i ymgartrefu disgyblion o ysgol gyfagos yn dda. Mae'r cysylltiadau da ac agos gyda'r ysgol uwchradd yn hybu gwelliannnau mewn safoni a chymedroli gwaith disgyblion sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safoni. Ceir trefniadau pontio effeithiol a hwylus er mwyn hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd a sicrhau eu bod yn paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei ddatblygu'n effeithiol. Cefnogir elusennau priodol sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion pobl eraill yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda a chaiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau fod gan yr ysgol ystod eang a

phwrpasol o adnoddau dysgu ac addysgu. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon profiadol. Mae cyfraniad da y cynhorthyddion dosbarth yn y cyfnod sylfaen ac wrth gefnogi plant ag ADY yn hybu gwella safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Gwariant yn unol ậ blaenoriaethau'r cynllun datblygu a phenderfyniadau gwariant. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ac mae rheolaeth o'r amser hwn yn dda. Mae cyfrifoldebau a disgwyliadau clir gan yr athrawon ac mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perffomiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n flaenoriaeth hefyd gan yr ysgol i ymestyn yr arfer hwn wrth ddechrau'r broses o reoli perfformiad y cynorthwywyr addysgu newydd.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, a'r ddarpariaeth ac arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae'r data a wirwyd ar gyrhaeddiad plant ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn dangos fod yr ysgol yn perfformio'n gyson dda. Yn 2011 mae'r ysgol yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Sirol, teuluol (grwp o ysgolion a nodweddion tebyg) a Chymru.

Yn y pynciau craidd (Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) tros pum mlynedd, o'u cymharu â bandiau meincnodi ysgolion tebyg o ran prydau bwyd rhad (sef band 0-8%), mae'r ysgol yn perfformio'n gyson dda ym mhob pwnc. Mae disgyblion CA1 yn cyflawni'n dda gan gyrraedd y chwartel uchaf yn 2010 a 2011 o'u cymahru a chwartel 3 yn y Gymraeg, chwartel 4 ym mathemateg a gwyddoniaeth yn 2009.

Mae'r canran o blant sydd yn cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyliedig yn uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth ond yn is ym mathemateg o'u cymharu a'r Teulu a'r Sir.

Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Sirol, teuluol a Chymru. Mae'r cynnydd yn gyson dda onibai am y Gymraeg.

O'u cymharu a'r teulu, mae'r ysgol yn perfformio'n uchel ym mhob dangosydd ac yn gyson ymhlith hanner uchaf ei theulu o fewn y pynciau craidd. Yn 2011, roedd yr ysgol yn y safle uchaf ym mhob dangosydd heblaw am y Gymraeg.

Erbyn 2011, mae perfformiad lefelau yn uwch ar draws yr holl bynciau craidd yn sylweddol uwch na'r gyfartaledd i'r teulu, Awdurdod Lleol a Chymru.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched dros y blynyddoedd er bod gorbwysiad o blaid bechgyn drwy'r ddau gyfnod allweddol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Ymateb i holiaduron rhieni.

Cafwyd 33 o ymatebion ac yr oedd pob un yn cytuno fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Yr oedd 97 y cant yn cytuno fod eu plant yn cael eu hamog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'u bod yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Yr oedd 85 y cant yn cytuno fod ymddygiad y plant ar y cyfan yn dda, fod safon yr addysgu yn dda a'u bod yn gyfforddus yn cysylltu â'r ysgol pob amser.

'Roedd bron pob un yn cytuno fod yr ysgol yn cael ei redeg yn dda. O'r ymatebion roedd llawer yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio a chwynion.

**Ymateb holiadur i ddysgwyr.**

Cafwyd 34 o ymatebion i'r holiaduron. Hefyd cafwyd sgyrsiau gyda'r plant yn ystod yr arolwg. Mae'r holl ymatebion yn dangos fod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os yn poeni. Mae 100 y cant yn gwybod beth i'w wneud a gyda pwy i siarad os yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae pob un yn cytuno eu bod yn cael eu dysgu i fwyta'n iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

'Roedd canran isel yn credu nad oedd pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae, ond roedd y rhan fwyaf yn credu fod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Eleri Wynn Honour | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Alun Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elaine Moore | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |